

10 Mai 2010

HWYL YR ŴYL YN LLANERCHAERON

Wrth i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Ceredigion 2010 agosáu ac i ganoedd o blant a phobl ifanc Cymru roi sglein ar eu perfformiadau, mae Maes yr Eisteddfod yn fwrlwm o weithgaredd gyda'r Pafiliwn yn cael ei roi yn ei le heddiw a Ceredigion gyfan yn fôr o liw yn barod i groesawu miloedd o Eisteddfodwyr i'r fro ddiwedd y mis.

Tir ysblennydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Llanerchaeron ger Aberaeron fydd yn gartref i'r Eisteddfod a gynhelir rhwng 31 Mai a 5 Mehefin a gyda cymunedau ac ysgolion ar hyd ac ar led sir Ceredigion wedi eu gwisgo mewn baneri lliwgar, croesawus mae cryn edrych ymlaen at y digwyddiadau ar y Maes eleni.

"Mae gennym nifer o atyniadau newydd a chyffrous ar y Maes eleni," medd Cyfarwyddwr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Aled Siôn. "Y pafiliwn cystadlu fydd canolbwynt y Maes, fel arfer ac oddi amgylch bydd unedau lliwgar sy'n gwerthu ac arddangos nwyddau, llwyfannau perfformio a theatr byw.

"Eleni fe fydd yr ŵyl, sy'n un o brif wyliau Ieuenctid Ewrop yn croesawu nifer o elfennau newydd i'r Maes gan gynnwys Trên Bach y Maes, fydd yn cludo Eisteddfodwyr o amgylch y Maes, Gwyddon*Le,* gweithdai samba a chrefft y DJ a mwy o fandiau byw nag erioed o'r blaen.*"*

Ar fwrdd Trên Bach y Maes, bydd cyfle i Eisteddfodwyr ymlacio wrth iddynt deithio o amgylch Maes yr Eisteddfod a thiroedd bras Llanercheron a hynny yng nghwmni tywyswr arbennig fydd â stori ddifyr i'w hadrodd am bob twll a chornel.

Mae'r babell wyddoniaeth wedi cael gwedd newydd eleni a bydd digon yn Gwyddon*Le* fydd wrth fodd yr hen a'r ifanc. O arddangosfeydd gwyddonol i gystadlaethau, gan gynnwys gweithgareddau yn ymwneud â Chysawd yr Haul wedi ei ariannu gan STFC (Cyngor Adnoddau Gwyddoniaeth a Thechnoleg) gyda chefnogaeth gwyddonwyr o Brifysgol Aberystwyth a'r gymuned yn ehangach.

Cyfuniad hwyliog o weithgareddau ar gyfer Dysgwyr a gweithgareddau llenyddol eu naws fydd yn y Cwtch Cymraeg. Bydd rhai o gymeriadau Pentre Bach ac eraill yn y gornel stori, murlun geiriau, rhai o awduron mwyaf adnabyddus Cymru'n darllen eu gwaith, gweithdai cyfrifiadurol neu ymlacio gyda phaned o de. Bydd arddangosfa hefyd o holl waith buddugol y cystadlaethau gwaith cartref llenyddol.

A bydd Pentre Mistar Urdd, fel arfer yn fwrlwm o weithgaredd gyda chyfle i ddringo wal ddringo arbennig Gwersyll Glan-llyn, neidio ar drampolîn yr Urdd neu blasu un o'r coctels ffrwythau newydd. Bydd atyniadau eraill yn cynnwys, clown, paentio wynebau, siop, balŵns a chornel liwio. Ac wrth gwrs, yn y Pentre bydd cyfle i gwrdd ag un o gymeriadau pwysicaf Cymru, neb llai na Misatr Urdd!

Yn ogystal â'r gweithgareddau lu yma, peidiwch ag anghofio am brif seremonïau a gweithgareddau

nos yr Eisteddfod

Yn y Pafiliwn…	Gyda'r nos….
am 2.30 o'r gloch bob dydd **Dydd Llun** Defod y Fedal Gyfansoddi **Dydd Mawrth** Defod Medal y Dysgwyr **Dydd Mercher** Defod y Fedal Ddrama **Dydd Iau** Defod y Cadeirio **Dydd Gwener** Defod y Coroni	**Nos Wener, 28Mai – Nos Fawrth, 1 Mehefin** Sioe Ieuenctid Ceredigion – Plant y Fflam Theatr Felinfach am 8pm **Nos Lun, 6.30 Pafiliwn** Cystadleuaeth y Gân Actol **Nos Fawrth a Nos Fercher, 1 a 2 Mehefin, 8pm Pafiliwn** Sioe Gynradd, Lledrith Llew **Nos Iau, Pafiliwn (parhad o'r dydd)** Noson o gystadlu **Nos Wener, 6.30 Pafiliwn** Cystadleuaeth Cerddorfeydd

Am docynnau ffoniwch: 0845 257 1639 neu urdd.org/eisteddfod

Diwedd

Cyswllt: Non Tudur Williams
nontudur@urdd.org 07968 446369

- Bydd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn ymweld ag Abertawe a'r Fro yn 2011 ac Eryri yn 2012
- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant a ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Mae gan yr Urdd dros 50,000 o aelodau rhwng 8 a 25 oed.
- Sefydlwyd yr Urdd er mwyn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc Cymru fyw bywydau byrlymus trwy gyfrwng y Gymraeg a magu hyder a pharch tuag at ei gilydd a phobl eraill yn y byd.
- Mae gweithgareddau'r Urdd yn cynnwys teithiau, chwaraeon, Eisteddfod, cylchgronau, adrannau ac aelwydydd a gwersylloedd

ALL ABOARD AS FESTIVAL APPROACHES LLANERCHAERON

As the Urdd National Eisteddfod, Ceredigino 2010 approaches and thousands of children and young people put the finishing touches on their performances, the Eisteddfod Maes is starting to take shape. The Pavilion is being built today and the whole of Ceredigion is a mass of colour as residents prepare to welcome thousands of visitors later this month.

The National Trust Estate of Llanerchaeron, near Aberaeron will host the Eisteddfod which is held between 31 May and 5 June and with many communities across Ceredigion already 'dressed' in colourful banners and flags, there is a growing feeling of anticipation and excitement.

"With so many new attractions on the Maes this year, we're confident this Eisteddfod will be a great success," said Aled Siôn, Director of the Urdd National Eisteddfod. "The pavilion will be the focal point of the Maes which will be surrounded by colourful stalls and exhibitions as well as performance stages with live bands and live theatre.

"This year, the festival, which is one Europe's biggest youth festivals will welcome a number of new activities on the Maes including the Trên Bach y Maes (Land train), which will offer festival-goers a chance to put their feet up while they enjoy a guided tour of the Maes and the beautiful grounds of Llanerchaeron. There will also be a science exhibition, samba and DJ-ing workshops as well as more live bands than ever before."

The science exhibition, Gwyddon*Le* has been given a new look this year. There will be a range of science exhibits and competitions, including space and solar system activities funded by the Science and Technology Facilities Council and supported by scientists from Aberystwyth University and the wider community.

The Cwtch Cymraeg will be a mix of activities for Welsh learners and literature lovers. Some of the characters from the popular S4C series, Pentre Bach will be reading stories in the story corner, there will be a word mural, some of Wales' best loved authors will be reading thei rown work or you can simply relax with a cup of tea. An exhibition of all the winning literature competitions will also be on display at the Cwtch Cymraeg.

And as ever, Pentre Mistar Urdd will be a hive of activity with a chance to climb Glan-Llyn Residential Centre's vast climbing wall, jump on the trampolines or taste on of the gorgeous fruit cocktails on offer. Other attractions include a clown, face painting, a shop, balloons and a colouring corner. And of course, Pentre Mistar Urdd is the place to be to meet one of Wales' most famous characters – Mistar Urdd!

As well as these activities, there are also the main ceremonies and a great line up of concerts and shows during the evening.

In the Pavilion…..	**Evening Concerts....**
at 2.30 each day **Monday** - Music Composition Medal Ceremony **Tuesday** - Literary Medal for Welsh Learners **Wednesday** - Drama Medal **Thursday** - Chairing Ceremony **Friday** - Crowning Ceremony	**Friday, 28May – Tuesday, 1 June** **Theatr Felinfach, 8pm** Youth Theatre production – Plant y Fflam **Monday, Pavilion, 6.30pm** Action Song competition **Tuesday and Wednesday, 1 a 2 June Pavilion, 8pm** Junior schools show, Lledrith Llew **Thursday, Pavilion (continuing from day programme)**

	An evening of competitions **Friday, Pavilion, 6.30pm** Orchestra Competition

Tickets: 0845 257 1639 or urdd.org/eisteddfod

Your Eisteddfod ticket allows you to enjoy the competing in the Pavilion. Pick up free translation

equipment from the Welcome Centre and settle in your seat for a feast of colourful entertainment.

Ends

Contact: Non Tudur Williams
nontudur@urdd.org 07968 446369

- Next year, Swansea will hos the Urdd National Eisteddfod and in 2012, the Eisteddfod will visit Snowdonia
- Urdd Gobaith Cymru is Wales' Largest Youth Organisation
- The Urdd has given children and young people exciting opportunities for over 80 years
- Urdd Gobaith Cymru has over 51,000 members between 8 and 25 years old
- The aim of the Urdd is to give the children and young people of Wales an opportunity to live their lives through the medium of Welsh, developing confidence and respect for each other and the people of the world
- Urdd activities include tours and visits, sports, Eisteddfod, magazines, adrannau and aelwydydd and residential centres